



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

2 HYDREF 2024

Adroddiad gan: **Euros Davies – Pennaeth Gwasanaeth - Gwella Ysgolion**
Rhys Williams – Pennaeth Gwasanaeth - Dysgu Proffesiynol

Pwnc: **Arweinyddiaeth GwE – Cyfnod Trosiannol**

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth gyda aelodau'r Cyd-bwyllgor am drefniadau arweinyddiaeth GwE hyd at ddiwedd y cyfnod trosiannol.

2.0 Cefndir

2.1 Yn unol â datganiad y cyn Weinidog dros Addysg a'r Gymraeg ar 31 Ionawr 2024, bu penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau sylfaenol i haen ganol y system addysg yng Nghymru.

2.2 Ar y 1af o Awst 2024 cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor y cynnig i leihau UDA GwE o bump i ddau am weddill y cyfnod trosiannol. O ganlyniad, mae rolau presennol y Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol a'r Uwch Arweinydd Uwchradd wedi eu tynnu oddi ar y strwythur ers 1 Medi, 2024.

2.3 Mae'r ddau uwch arweinydd sy'n weddill wedi cytuno i arwain, rheoli a sicrhau ansawdd y swyddogaeth graidd gwella ysgolion a'r dysgu proffesiynol a chymorth i ysgolion hyd at ddiwedd y cyfnod trosiannol.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Mae sawl ffrwd bwysig wedi'i adnabod i waith y gwasanaeth rhwng Medi a diwedd y cyfnod trosiannol sy'n cynnwys:

- Rheoli risgiau a sicrhau ansawdd o ran swyddogaeth graidd GwE o gefnogi ysgolion ac awdurdodau i gyflawni eu rolau statudol.
 - Cefnogi'r Bwrdd Trosiannol i sefydlu prosesau a strwythurau pwrpasol er mwyn ymateb yn llwyddiannus i ofynion adolygiad yr haen ganol.
-

- Cydweithio'n agos gyda'r Bwrdd Trosiannol, y Rheolwr Prosiect ac Adnoddau Dynol i ddarparu a rhannu'r wybodaeth berthnasol.

3.2 Eleni mae'r gwasanaeth wedi colli 17 aelod o staff (cyfystyr â 15.2 swydd llawn amser). Mae staff oedd ar secondiad wedi dychwelyd i'w hysgolion, staff wedi gadael y gwasanaeth i swyddi newydd ac ymddiswyddiadau wedi achosi anghydbwysedd yn y cymorth i'r gwahanol sectorau a phynciau. Golygai hyn bod risg sylweddol i gapasiti'r gwasanaeth i wireddu'r cytundebau comisiynu sydd yn eu lle. Rhagdybir y bydd y rhif yma yn parhau i gynyddu nes bydd sicrwydd o swyddi yn y trosglwyddiad.

3.3 Ble mae diffyg capasiti wedi amlygu, bydd Uwch Dîm Arwain GwE yn cysylltu gyda Awdurdodau unigol i drafod datrysiadau posib.

3.4 Er mwyn sicrhau gweithredu cyfnod trosiannol llwyddiannus, mae'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid yn cyfathrebu yn gyson ac agored. Bydd hyn yn gymorth i hybu morâl, llesiant a chymhelliant staff yn ystod y cyfnod ansicr yma.

3.5 Bydd angen cytuno ar amserlen gweithredu y cyfnod trosiannol ar y cyd.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'w adnoddau ariannol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Mae angen amserlen cytunedig ar draws yr awdurdodau er mwyn osgoi goblygiadau cydraddoldeb.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Mae angen cytuno ar amserlen gweithredu a phenodi ar gyfer y modelau newydd er mwyn osgoi goblygiadau personél.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae'r adroddiad yma yn rhoi diweddariad i'r Cydbwyllgor ar y datblygiadau o safbwynt arweinyddiaeth GwE. Mae'r sefyllfa a ragwelir am weddill y flwyddyn ariannol wedi cael ei adlewyrchu yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw a adroddir arno mewn eitem arall ar raglen y cyfarfod hwn, sy'n dangos fod y sefyllfa ariannol dan reolaeth. Nid oes gennyf wrthwynebiad i gynnwys yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.